Strategaeth Cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2018 - 2022

Pam ein bod yn gwneud hyn?

Mae Cyngor Wrecsam wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gwella ymgynghoriad ac ymgysylltiad â'r cyhoedd yn y blynyddoedd diwethaf, ac wedi cael ei ganmol gan Swyddfa Archwilio Cymru am ei waith yn y maes hwn. Dyma rai o'r gwelliannau a'r cyflawniadau:

- Canolfan ymgynghori ac ymgysylltu ar-lein - 'Eich Llais Wrecsam' – wedi'i rannu gyda phartneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Cynnydd yn nifer yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd a chynnydd yn nifer yr ymatebion a gafwyd (e.e. cynhaliodd CBSW 24 ymgynghoriad ar 'Eich Llais Wrecsam' yn 2015 – cymerodd tua 4,400 ohonoch chi ran. Yn 2017 fe wnaethom gynnal 43 ymgynghoriad ar-lein, ac fe ymatebodd tua 11,700)
- Mwy o ryngweithio â'r cyhoedd trwy'r cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau ar-lein eraill.

Rydym yn gwybod ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y maes hwn, serch hynny mae angen rŵan i ehangu'r ffocws o ganolbwyntio'n bennaf ar ymgynghoriad ffurfiol i ganolbwyntio ar 'gynnwys', ac **rydym ni eisiau cydweithio â chi i ddatblygu'r cynlluniau hyn.**

Mae'r angen i ystyried sut rydym ni'n 'cynnwys' dinasyddion yn fwy effeithiol a gweithio **ar y cyd â** nhw yn cael ei amlygu mewn nifer o fannau, gan gynnwys:

- **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011** - sy'n pwysleisio pwysigrwydd rhoi lle canolog i ymgysylltiad cyhoeddus yn yr hyn rydym ni'n ei wneud a rhoi cyfle i bawb gyfrannu i'r broses o wneud penderfyniadau yn lleol.
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** – sy'n nodi bod cynnwys pobl yn allweddol i egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn hanfodol ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau yn y dyfodol.
- **Yn ôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** - 2014 mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol roi trefniadau tryloyw ar waith lle mae pobl yn bartneriaid cyfartal wrth ddylunio a chynnal gwasanaethau.
- **'Cynllun Lles' Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam –** sy'n nodi bod angen i gymunedau a sefydliadau'r sector cyhoeddus siarad a gwrando ar ei gilydd er mwyn gwella lles yn Wrecsam.
- **Cynllun Cyngor CBSW –** sy'n nodi y byddwn yn ymgynghori â, ac yn **cynnwys** pobl leol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Nid ymgynghori â phobl ar sut rydym ni'n cynllunio a darparu gwasanaethau yn unig, ond ymgysylltu â nhw i ddarparu gwasanaethau ar y cyd neu i'w gwneud yn haws i bobl helpu eu teuluoedd, eu cymdogion a'u hunain.
- **Cynllun Cydraddoldeb Sengl CBSW–** sy'n gosod ymrwymiad i 'leihau anghydraddoldebau o ran cynrychiolaeth a llais'.
- Yn ogystal, mae yna nifer o gynlluniau a strategaethau cysylltiedig o fewn CBSW. Dylai'r rhain adlewyrchu gweledigaeth a chyfeiriad y Strategaeth Cynnwys gorfforaethol hon, er mwyn iddynt ategu, cefnogi a chryfhau'r naill a'r llall.

Bydd y Strategaeth Cynnwys hon yn canolbwyntio ar dri maes cynnwys: Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydgynhyrchu.

Mae'n bwysig nodi y defnyddir termau eraill mewn rhai meysydd, yn enwedig ym myd plant a phobl ifanc, lle mae'r term 'cyfranogiad' yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin. Byddwn yn ystyried bod y termau 'cyfranogiad' a 'chynnwys' yn golygu'r un peth at ddibenion y strategaeth hon.

Ein Gweledigaeth …


Mae gan bawb fynediad at yr wybodaeth y mae arnynt ei hangen i ddylanwadu ar y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau. Rydym yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â phawb ar bob penderfyniad sy'n effeithio arnyn nhw a, lle bo'n bosib, rydym yn cydweithio i gynllunio a darparu gwasanaethau.

Beth yw Ymgynghori?

Ymarfer i gasglu barn pobl am gynigion penodol er mwyn helpu i wneud penderfyniad.

Ein nod yw …

1. Sicrhau ein bod yn ymgynghori ar y pethau cywir, yn y ffyrdd cywir, ar yr adegau cywir, gyda'r bobl gywir.
2. Sicrhau bod ymgynghoriadau ar draws y sefydliad yn cael eu cynnal at safon gyson uchel.
3. Sicrhau bod canfyddiadau ymgynghoriadau yn cael eu hystyried a'u defnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus ar bob lefel.
4. Sicrhau ein bod yn cyfathrebu'n onest gyda phobl ynglŷn â chanlyniadau eu cyfranogiad.



Beth yw Ymgysylltu?

Sgwrs barhaus lle'r ydym ni'n gwrando ar yr hyn sydd gan bobl i'w ddweud wrthym, ac yn ceisio deall eu safbwyntiau ar amrediad o feysydd.

Ein nod yw …

1. Sicrhau bod yna ffyrdd priodol sydd o fewn cyrraedd pawb i ymgysylltu â ni am faterion sy'n bwysig iddyn nhw.
2. Dadansoddi a deall safbwyntiau pobl, o amrywiaeth o ffynonellau, a defnyddio'r wybodaeth hon (ynghyd â ffynonellau gwybodaeth eraill) i lywio ein penderfyniadau.
3. Datblygu cysylltiadau a pherthnasau effeithiol â gwahanol bobl a chymunedau ar hyd a lled y fwrdeistref sirol.
4. Adnabod a chydnabod y gwerth y mae ymgysylltu wedi'i ychwanegu at ein gwaith.

Sut mae adnabod llwyddiant?

Bydd lleihad yn y bwlch rhwng pa mor bwysig yw hi i bobl leol bod y Cyngor yn gwrando arnyn nhw a pha mor fodlon ydyn nhw fod hyn yn digwydd, fel ein bod yn symud yn agosach at fodloni gofynion y cyhoedd (37% yn 2016).

Byddwn hefyd yn mesur y bwlch rhwng pa mor bwysig yw hi i bobl leol eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau'r Cyngor a pha mor fodlon ydyn nhw fod hyn yn digwydd (heb ei fesur cyn hyn).

Beth yw Cydgynhyrchu?

Gweithio gyda phobl a chymunedau mewn partneriaeth gyfartal i ddatblygu a darparu gwasanaethau sy'n bwysig gyda'n gilydd.

Ein nod yw …

1. Sicrhau ein bod yn gweithio at safon gyson uchel ar draws y sefydliad wrth gyd-gynhyrchu gwasanaethau.
2. Datblygu partneriaethau gydag unigolion, grwpiau a chymunedau perthnasol er mwyn rhannu a gwneud defnydd o'u gwybodaeth a'u profiad.
3. Sefydlu diwylliant o gyd-gynhyrchu ar draws y sefydliad a defnyddio'r dull hwn pryd bynnag y bo'n briodol.